

‘Casglfa Ddirfawr o Eiriau Cymraeg, Henion a Newyddion’:  
Geiriadur Thomas Wiliems, Trefriw (*c.*1545–1622/3) yn LlGC Peniarth 228<sup>1</sup>

Pan vedhyliwn [...] nad yw dyn, yn bendhiuadhef hendlyn, dhim amgen nag edhi am garuan, ne ganwylh gadach, ne mygys morweisiat ne gloch ar dhwr, a’m hoedran ineu’n trymhau, ag yn vy rhybuddiaw, i gasglu ’nghyt vynghipan a’m capan, erbyn v’ymdeith a’m gwir gaertref alhan o’r glynn y trueni hwn yma [...] Mae’n oet ag yn gwbl vadwys i mi gan hyny gyfranu a’m cytwlatwyr, y Trysawr ni bu ’rioet ei gypheleyp ynghymru o’r blaen.<sup>2</sup>

Roedd canrif newydd wedi gwawrio ac roedd Thomas Wiliems (*c.*1545–1622/3), y cyn-offeiriad, y ffisigwr a’r hynafiaethydd o Drefriw yn Nyffryn Conwy, yn ymwybodol iawn o’i oedran.<sup>3</sup> Byddai’n drigain oed ymhen dim, ac roedd cyflawni ei uchelgais oes o lunio a chyhoeddi geiriadur cymwys i’r iaith a garai gymaint yn prysur lithro o’i afael. Yn 1547 roedd William Salesbury (*c.*1510–*c.*1580), y gŵr a fuasai’n arwr ganddo yn y gorffennol, wedi cyhoeddi’r geiriadur Cymraeg cyntaf, gan symblyu llu o Gymry i ymgymryd â gwaith geiriadurol yn ail hanner y ganrif.<sup>4</sup> Geiriadur Cymraeg–Saesneg oedd gwaith Salesbury, ‘The first free-standing book-length dictionary of English and another vernacular’, yn ôl yr hanesydd geiriadura John Considine.<sup>5</sup> Ei nod oedd ehangu geirfa Saesneg Cymry Cymraeg er mwyn iddynt lwyddo mewn byd lle roedd yr iaith Saesneg yn prysur ennill tir ym mhob agwedd ar fywyd swyddogol ac economaidd, yn ogystal â’u galluogi i ‘ymgydnabod â’r llyfrau Saesneg dyneiddiol a Phrotestannaidd a ddeuai’n gynyddol o’r wasg erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg’.<sup>6</sup> Er ei fod yn cynnwys dros 7,000 o ddangoseiriau,<sup>7</sup> roedd geiriadur Salesbury yn eiriadur cymharol syml a’r gair Cymraeg fel arfer yn cael ei ddilyn gan un gair neu ymadrodd cyfystyr yn Saesneg, a’r geiriau ar y cyfan yn eiriau o’r iaith gyfoes. Roedd y geiriadur y bwriadai Thomas Wiliems ei greu, ar y llaw arall, yn llawer mwy uchelgeisiol. Fel y gwelir isod, gellir bod yn weddol hyderus mai dilyn traddodiad yr hen eirfâu bardol brodorol a chynhyrchu geiriadur Cymraeg–Cymraeg oedd ei gynllun gwreiddiol ef, gan ychwanegu dyfyniadau pwrpasol o lenyddiaeth i enghreifftio defnydd y geiriau dan sylw. Ond ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o waith caib a rhaw yn casglu tystiolaeth o’r llawysgrifau,<sup>8</sup> yn enwedig o waith y beirdd, sylweddolai Thomas Wiliems fod perygl mawr y byddai’r holl waith yn mynd i’r gwellt, fel y gwnaethai cynlluniau geiriadurol sawl un o’i gyfoeswyr.<sup>9</sup> A hithau’n unfed awr ar ddeg arno, gwnaeth benderfyniad cwbl chwyldroadol:

newidiodd ei gynllun yn llwyr. Cymerodd eiriadur Lladin–Saesneg sylweddol yr argraffydd o Gaer-grawnt, Thomas Thomas(Thomasius), *Dictionarium Linguae Latinae et Anglicanae* (1587),<sup>10</sup> a chyfieithu'r diffiniadau Saesneg i Gymraeg gan gynhyrchu geiriadur Lladin–Cymraeg sylweddol. Cofnododd y cyfan mewn tair cyfrol, Peniarth 228i–iii, rhwng 4 Mai 1604 a 8 Hydref 1606, gan gyfieithu wrth weithio; yna am flwyddyn gron, hyd at 2 Hydref 1607, aeth drwy argraffiad diweddarach o waith Thomasius gan roi geiriau ychwanegol oddi yno mewn Atodiad ar ddiwedd y drydedd gyfrol, neu eu cynnwys yng nghorff y geiriadur os oedd lle.<sup>11</sup> Mae'r cam olaf hwn yn profi ei ddycnwch a'i ddyfalbarhad eithaf er mwyn sicrhau'r safon uchaf i'w waith.

Gwiredwyd hanner breuddwyd Thomas Wiliems: cynhyrchodd gampwaith o eiriadur a fyddai'n sail i ysgolheictod y Gymraeg am ganrif oedd i ddod, ond ni lwyddodd i'w argraffu a'i gyhoeddi, er gwaethaf ymdrechu'n galed i'r perwyl hwnnw.<sup>12</sup> Gan hynny mae'r geiriadur wedi parhau hyd heddiw ar ffurf llawysgrif yn unig. Eto i gyd, nid oes amheuaeth am ei ddyylanwad. Fe'i defnyddiwyd gan Dr John Davies Mallwyd yn sail i ail ran ei eiriadur *Dictionarium Duplex* (1632), ar gyfer creu ei restr o enwau llysiâu (*Botanologium*), yn ogystal ag yn ffynhonnell i ddyfyniadau engrifftiol ar gyfer rhan gyntaf y *Dictionarium*.<sup>13</sup> A dyna reswm arall dros esgeuluso geiriadur Thomas Wiliems dros y blynnyddoedd, sef drwy gymryd bod popeth o werth ynddo wedi ei gynnwys yn y *Dictionarium*. Mewn gwirionedd mae tipyn o wahaniaeth rhwng yr hyn a geir yno a diffiniadau Thomas Wiliems, gan i John Davies olygu'r diffiniadau Cymraeg yn chwyrn. Mae'n rhaid cytuno gyda dyfarniad E. D. Jones am ei waith golygyddol:

The revision was drastic and thorough and little remains in the printed version of the characteristics of Thomas ap William. Therefore, the original manuscripts in Peniarth MS 228 retain their full value for the lexicographer and for the biographer of Thomas ap Williams. Thomas ap William's contribution to lexicography can not be properly evaluated by reference to the second part of the *Dictionarium Duplex*.<sup>14</sup>

O gymharu cofnodion Thomas Wiliems cyn ac ar ôl iddynt fod drwy felin olygyddol John Davies, gwelir tuedd amlwg i leihau nifer y cofnodion ac i olygu'r rheiny'n bur chwyrn, gan

ffafrío diffiniadau cryno, un gair, yn hytrach nag esboniadau llawnach, a gwyddoniadurol ar brydiau, Thomas Wiliems.

Yn yr astudiaeth gychwynnol hon, ceisir gwell dealltwriaeth o eiriadur Thomas Wiliems, ei ffynonellau a'i ddull o weithio. Seiliwyd y sylwadau'n bennaf ar drawsysgrifiad a wnaethpwyd o rannau o'r geiriadur – 122 tudalen (8.7% ohono), yn cynnwys sampl o bob blwyddyn y bu wrth y gwaith, a'r rhan berthnasol o'r Atodiad. Gosodwyd y cyfan mewn bas data ochr yn ochr â thestun geiriadur Thomasius (1587) gan ddefnyddio (a chywiro) y testun electronig a geir ar wefan 'Lexicons of Early Modern English' (LEME),<sup>15</sup> cymharwyd diffiniadau Saesneg Thomasius a diffiniadau Cymraeg Thomas Wiliems, nid yn unig er mwyn gweld ei ddull o gyfieithu, ond hefyd er mwyn gweld beth a newidiodd neu a ychwanegodd. Ar ddiwedd yr erthygl cyflwynir detholiad o gofnodion, wedi eu dewis i amlygu amrywiol agweddau ar y geiriadur, a gosodwyd fersiwn Thomasius (1587) wrth droed pob cofnod er mwyn amlygu'r geiriadur potensial Cymraeg–Saesneg, Saesneg–Cymraeg enfawr sy'n llechu y tu ôl i'r gwaith.

\*\*\*\*\*

Ganed Thomas Wiliems oddeutu 1545 yn *Ardhe'r menych dan droet mynyd yr yri*,<sup>16</sup> sef yr ardal fynyddig uwchben Dolgarrog a Threfriw yn Nyffryn Conwy.<sup>17</sup> Tybir iddo dderbyn ei addysg ysgol ym mhlas Gwydir gyda meibion teulu Wynn (roedd ei fam, Catrin, yn ferch ordderch i Faredudd ab Ifan o Wydir),<sup>18</sup> cyn mynd i Brifysgol Rhydychen, gan ddilyn yn ôl troed yr ysgolhaig a'r geiriadurwr William Salesbury, a oedd genhedlaeth yn hŷn nag ef ac yn byw dros yr afon o Drefriw yn y Plas Isaf, Llanrwst. Ni wyddom nemor ddim am ei amser yn Rhydychen, nac ychwaith i ba goleg yr aeth: mae'n ddigon posibl mai i ychwanegu at ei addysg yr aeth yno – *angwanegu fy nysc a'm gwybodaeth* – yn hytrach nag i ennill gradd fel y cyfryw.<sup>19</sup> Ceir y dystiolaeth gynharaf o'i ddiddordebau ieithyddol o'r cyfnod hwn.

Ymddengys iddo ddod yn gyfaill yn Rhydychen i Richard Carew (1555–1620), yr hynafiaethydd o Antony yng Nghernyw, a fu'n fyfyrwr yn Christ Church.<sup>20</sup> Yn ddiweddarach byddai Carew yn esbonio sut y bu'r ddau ohonynt yn trafod hynafiaeth y Gernyw a'i pherthynas dybiedig â'r iaith Roeg, gan gyfeirio at Thomas Wiliems, a oedd ddeng mlynedd yn hŷn nag ef, fel awdurdod; dichon mai yn Rhydychen y bu hyn.<sup>21</sup>

Erbyn 1573, os nad ynghynt, roedd Thomas Wiliems wedi dychwelyd i Ddyffryn Conwy ac ymsefydlu'n gurad yn Nhorefriw.<sup>22</sup> Yn y cyfnod hwn, yn llawn brwdfrydedd am faterion ieithyddol, gallwn dybio iddo fynnu sgwrs â'i gymydog William Salesbury a naill ai datgelu wrtho ei awydd i lunio geiriadur Cymraeg, neu dderbyn y syniad ganddo. Salesbury, wrth gwrs, fyddai'r person amlwg i ymgynghori ag ef ar faterion o'r fath, ac yntau wedi cyhoeddi ei eiriadur ef ryw chwe mlynedd ar hugain ynghynt (a Thomas Wiliems heb eto droi ei gefn ar Brotestaniaeth a thorri cyfeillgarwch ag ef<sup>23</sup>). Gallwn dybio mai ei gyngor i Thomas Wiliems oedd dilyn patrwm y geirfâu bardol brodorol, a oedd yn eirfâu Cymraeg–Cymraeg. Roedd ef, Salesbury, eisoes wedi gwneud copi o eirfa o'r fath yn llaw William Llŷn, yn cynnwys geiriau anghyfarwydd wedi eu tynnu o hen destunau bardol neu ryddiaith; cyfystyron Cymraeg cyfoes; a dyfyniad yn engrheiftio'r gair yn ei gyd-destun.

Mae dwy eirfa farddol yn llaw William Llŷn wedi goroesi – fersiwn cynnar yn Peniarth 230 (c.1560×1574) a fersiwn mwy caboledig yn Caerdydd 3.12 (c.1567×1574) – ond dangosodd Roy Stephens mai fersiwn arall, coll, a gopiodd Salesbury, gan ychwanegu ato ddyfyniadau pellach a chywiriadau, yn ogystal â gwybodaeth ddiddorol am dafodiaith.<sup>24</sup> Tybir bod Salesbury wedi rhoi benthyg y copi hwnnw i Thomas Wiliems, gan awgrymu y dylai lunio'i eiriadur ar yr un patrwm: dangosair, diffiniad Cymraeg a dyfyniad. Er nad yw copi Salesbury wedi goroesi, diogelwyd copi Thomas Wiliems – bellach Caerdydd 4.330 (Hafod 26 gynt) – a ddisgrifir ganddo fel copi o *Athrolythr William Lleyn, gwedy angwanegû o eiriae lawer a chorectiat Mr William Salesbury*; nododd iddo gwblhau ei gopio yn 1574: 17 Februarii (Chwefror 1574/5).<sup>25</sup> Hon yw'r llawysgrif gynharaf yn ei law, a go brin mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod y dyddiad, 1574/5, bron yn union ddeng mlynedd ar hugain cyn iddo ysgrifennu yn rhagymadrodd ei eiriadur ar 10 Mai 1604: *daruod y mi er ys mwy na deg mlynedd ar hugein, ag yn wastatol er hyny hyd yr awr honn, bentyrru Casglfa dhiruawr o eiriae Cymraec henion a newydion*.<sup>26</sup> Mae'n debygol mai ei waith yn copio llawysgrif William Salesbury a ystyriai Thomas Wiliems yn fan cychwyn ei yrfa fel geiriadurwr. At hynny, gallwn dybio mai casglu tystiolaeth eiriol ar gyfer ei eiriadur oedd y cymhelliaid cychwynnol i'w waith yn copio testunau canoloesol, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith.

Mae Caerdydd 4.330 yn llawysgrif dal a chul, a rhoddodd Thomas Wiliems ryw 4 neu 6 cofnod ar bob dalen, gan adael digon o le rhyngddynt ac ar ymylon y ddalen i fedru ychwanegu rhagor o ddeunyydd fel y deuai ar ei draws, yn ddyfyniadau ac yn eiriau newydd.

Mae ansawdd anffurfiol y llawysgrifen yn awgrymu mai fel copi gweithio personol y bwriadodd i'r llawysgrif hon fod. Gallwn ddyfalu mai dyma'r fethodoleg gweithio a awgrymodd Salesbury wrtho. Yn wir, fe'i gwelwn yn ychwanegu llu o eiriau a dyfyniadau newydd dros y blynnyddoedd nesaf, hyd at o leiaf flynyddoedd cynnar yr ail ganrif ar bymtheg, a barnu wrth ansawdd amrywiol yr ysgrifen, y gwahanol biniau ac inciau a ddefnyddiodd, yn ogystal â'r newid yn ei orgraff.<sup>27</sup>

Yr unig lawysgrif arall gan Thomas Wiliems sy'n cynnwys deunydd geiriadurol fel y cyfryw yw Peniarth 188, a ddisgrifiwyd gan J. Gwenogvryn Evans fel 'Dictionary in the Making [...] having no apparent system or arrangement.'<sup>28</sup> Yma cofnodai Thomas Wiliems eiriau, diffiniadau, dyfyniadau o'r farndoniaeth a thestunau rhyddiaith (yn enwedig o Gyfraith Hywel), yn wir, unrhyw beth y tybiai a allai fod yn ddefnyddiol. Ar rai dalennau ceir copïo systematig o ffynonellau geirfaol penodol, megis rhestr o eiriau *alhan o hen lyver or eidho N. Cop. ac a gowsyd o Lann daf;*<sup>29</sup> ac ar eraill ceir nodiadau digyswllt a darodd i lawr yn sydyn, o bosibl yng nghwrs ei waith yn copïo amryfal destunau. Ceir yn y llawysgrif hon hefyd dystiolaeth bellach o'i ddiddordeb mewn etymoleg, er enghraift mewn rhestr â'r teitl *Lexicon Symphonu[m] Ca[m]bro-latin[um]* ('geiriadur o eiriau Cymraeg a Lladin sy'n cydgordio â'i gilydd') neu *Etymon Brytannicu[m] siue de ling[u]ae Brytannicae Etymilogia [sic]* ('ystyr wreiddiol y Gymraeg neu etymoleg yr iaith Gymraeg').<sup>30</sup>

Sut, felly, yr esblygodd y casgliadau amrywiol a digon di-drefn hyn o nodiadau yn eiriadur safonol a threfnus Lladin–Cymraeg fel a geir yn Peniarth 228? Awgrym argyhoeddiadol J. E. Caerwyn Williams yw fod Thomas Wiliems, yn ei anobaith ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, wedi troi at ei gyfaill, yr ysgolhaig John Edwards o'r Waun (m. 1626), am gyngor sut i fynd ati, a'i fod yntau wedi awgrymu defnyddio geiriadur Lladin–Saesneg Thomas Thomas yn sail a phatrwm i'w waith.<sup>31</sup> Cynigiai'r geiriadur hwnnw 'fframwaith roddedig', meddai Williams, 'gan fod lle i gredu bod mawr angen y cyfryw fframwaith ar yr awdur'. Gellir dyfalu bod John Edwards yn yr un sgwrs wedi cynnig neu gytuno i drefnu argraffu'r gwaith, a bod Thomas Wiliems wedi cydsynio i'w anfon ato cyn gynted ag y byddai'n barod. Yn 1607, archebodd Edwards bapur ar gyfer gwneud copi teg ohono ar gyfer yr argraffwyr yn Llundain a phan gyrhaeddodd y geiriadur yn ei ddwyo tua diwedd 1607, cychwynnodd ei drawsysgrifio gyda chymorth cynorthwydd, gan gynhyrchu 'a copy which would delight the eyes and warm the heart of any printer'.<sup>32</sup> Yn anffodus bu'n rhaid iddynt roi'r gorau iddi yn

1613, ar ôl cyrraedd *Indeclinabilis*, gan i Edwards dderbyn dirwy lem am ei reciwsantiaeth a cholli deuparth o'i eiddo.<sup>33</sup>

Roedd seilio geiriadur newydd ar un a oedd eisoes wedi ei gyhoeddi yn ddull hollol arferol o lunio geiriadur ar gyfer ei argraffu yn y cyfnod hwn, gan ddefnyddio'r un dangoseiriau a chyfieithu'r diffiniadau: dyna a wnaeth William Salesbury, yntau, wrth seilio'i eiriadur ef ar batrwm gwaith John Palsgrave, *Lesclarissement de la langue francoyse* (1530), sef geiriadur a fwriedid i ddysgu Ffrangeg i Saeson.<sup>34</sup> Nid yn unig y cynigiai'r dull hwn gronfa hwylus o eiriau a diffiniadau ar gyfer y geiriadurwr, ond lleihâi hefyd waith yr argraffydd.<sup>35</sup> Yn yr un modd ag y seiliodd Thomas Wiliems ei waith gan mwyaf ar Thomasius (1587), defnyddiodd Thomas Thomas ddau eiriadur yn brif ffynhonnell ar gyfer ei waith yntau, sef fersiwn Abraham Fleming (1583) o eiriadur Lladin–Groeg–Ffrangeg Guillaume Morel (1558), lle roedd Fleming wedi cyfieithu'r diffiniadau Ffrangeg i Saesneg; a *Thesaurus Lladin–Saesneg* Thomas Cooper (1565).<sup>36</sup> Roedd y ddau eiriadur hynny yn eu tro yn seiliedig ar eiriaduron blaenorol, gyda Cooper yn seiliedig ar eiriadur Thomas Elyot (1538) a bwysai'n drwm ar eiriadur Lladin (1502) y geiriadurwr enwog Ambrosius Calepinus o Bergamo yn yr Eidal.<sup>37</sup>

O ran methodoleg, felly, roedd geiriadur Lladin–Cymraeg Thomas Wiliems yn perthyn i brif ffrwd traddodiad geiriadura ei gyfnod. Mae'n annisgwyl ei fod yn enwi Calepinus fel ei brif ffynhonnell yn rhagair Lladin y geiriadur, a ysgrifennodd ar ôl cwblhau'r gwaith yn 1608 – *Ex Ambrosio Calepino potissimum* ‘o [waith] Ambrosius Calepinus yn arbennig’,<sup>38</sup> – gan mai prin yw'r geiriau y mae'n eu priodoli i ‘Calep.’ yn y geiriadur yn annibynnol ar Thomasius. Mae'n rhyfedd hefyd nad yw fel petai'n cydnabod ei ddyled i Thomasius ac yntau wedi dibynnu mor drwm arno; fel y sylwodd E. D. Jones, ‘Thomas ap William seems to have relied more on Thomas Thomas than one would have gathered from the cursory mention of him on the title-page.’<sup>39</sup>

Tybed, mewn gwirionedd, a oedd Thomas Wiliems yn ystyried mai geiriadur Calepinus *oedd* Thomasius (1587), yn yr ystyr ei fod yn olygiad a chyfieithiad o eiriadur Calepinus (er nad yn uniongyrchol, fel y gwelwyd eisoes)? O gymharu cofnodion Thomasius ac eiddo Calepinus – fel y gwnaeth E. D. Jones<sup>40</sup> – daw perthynas agos y ddau eiriadur yn gwbl amlwg. Arwyddocaol hefyd yw geiriad Thomas Wiliems mewn rhagnodyn i'r Atodiad lle cynhwysodd eiriau o argraffiad diweddarach o Thomasius (wedi ei olygu a'i argraffu gan John Legate) nad oeddynt yn yr argraffiad cyntaf: *Appendix vocabulorum quae*

*desiderabantur in Calepino & Thomasio, ex aeditione Joannis Legati et aliis* ('Atodiad o eiriau nad oeddynt yng ngwaith Calepinus a Thomasius, o olygiad John Legate ac eraill').<sup>41</sup> Credir mai disgrifiad o Thomasius (1587) yw *Calepino & Thomasio*, a bod Thomas Wiliems yma'n cydnabod ei ddyled i'r traddodiad Calepinaidd drwy weld ei eiriadur ef yn ddisgynnydd i'r traddodiad hwnnw drwy Thomasius. Byddai enw Thomas Thomas wedi bod braidd yn anghyfarwydd yng Nghymru yn y cyfnod, yn enwedig gan iddo farw'n ifanc yn 1588, lai na blwyddyn ar ôl cyhoeddi ei eiriadur; felly o safbwyt Thomas Wiliems, byddai cysylltu ei waith â'r geiriadurwr clodfawr Calepinus o'r Eidal yn creu llawer mwy o argraff ar y darllenydd, ac yn ddatganiad o berthynas ei waith â'r traddodiad rhwngwladol, Ewropeaidd o eiriadura.<sup>42</sup> Fel y dywed Starnes, 'During the whole period of the Renaissance scarcely an important dictionary was published which did not reflect directly or indirectly the influence of Calepine.'<sup>43</sup>

O ran y ffynonellau eraill y mae Thomas Wiliems yn eu henwi yn 1608, ceir *Lexico Graeco Thomasio, Legato et aliis; Doctiss. Hadrian Junio et etiam aliis*.<sup>44</sup> Awgrymodd E. D. Jones y dylid rhoi coma rhwng *Lexico Graeco a Thomasio*, 'as there does not appear to be a Thomasian Greek dictionary'.<sup>45</sup> Gan nad oes tystiolaeth fod Thomas Wiliems wedi dibynnun helaeth, os o gwbl, ar unrhyw eiriadur Groeg, mae'n fwy tebygol mai cyfeirio a wna *Lexico Graeco Thomasio, Legato et aliis* at Thomasius (1596), y pumed argraffiad yr ychwanegwyd geiriau Groeg ato. Disgrifir y geiriadur hwnnw ar ei ddalen deitl fel *Thomae Thomasii Dictionarivm* wedi ei gynhyrchu *Ex officina Iohannis Legati, celeberrimae Academiae Typographi. 1596*, ac yn *Qvinta Editio Syprioribvs cvm Graecarum dictionum* ('y pumed argraffiad o'r gwaith uchod, gyda geiriau Groeg'). Gwaith y meddyg a'r geiriadurwr o'r Iseldiroedd, Hadrianus Junius, neu Adriaen de Jonghe (1511–75), yw'r ffynhonnell arall a enwa Thomas Wiliems. Yn 1567 cyhoeddodd Junius eiriadur pynciol, *Nomenclator*, a gyfieithwyd i'r Saesneg gan John Higgins yn 1585.<sup>46</sup> Ni chafwyd tystiolaeth fod Thomas Wiliems wedi defnyddio'r geiriadur hwnnw'n uniongyrchol, ac mae'n debygol eto mai Thomasius (1587) oedd ei ffynhonnell. Enwir Junius gan Thomas Thomas yn rhagymadrodd ei eiriadur fel un o'i brif ffynonellau, a dangosodd John Considine iddo ychwanegu geiriau'n uniongyrchol o'r *Nomenclator* o'r cofnod *Chartulae lusoriae* ('chwarae cardiau') ymlaen, 'because he wanted to supplement his dictionary with post-classical forms'.<sup>47</sup>

Penodwyd Thomas Thomas, ysgolhaig ifanc a chyn-gymrawd o Goleg Kings, yn argraffydd Prifysgol Caer-grawnt yn gynnar yn y 1580au.<sup>48</sup> Dyma oedd yr unig argrafft y prifysgol ar y pryd â thrwydded i argraffu a chyhoeddi geiriaduron. Ym mis Medi 1587, dan argraffnod y Brifysgol, cyhoeddodd Thomas ei eiriadur sylweddol, *Dictionarium linguae Latinae et Anglicanae*: ‘an octavo [...] of 1,008 double-column pages, printed with worn type, and presenting some 37,000 entries’.<sup>49</sup> Daeth yn boblogaidd yn syth, ac fe’i hailargraffwyd, gan ei addasu a’i ehangu, hyd at y pymthegfed argraffiad yn 1644.<sup>50</sup> Yr argraffiad cyntaf, 1587, yn unig a gyhoeddwyd yn ystod bywyd Thomas Thomas, gan iddo farw’r flwyddyn ganlynol. Fe’i holynwyd yn y swydd gan John Legate (a briododd ferch gwedd Thomas), ac argraffwyd yr argraffiadau nesaf dan ei drwydded ef.<sup>51</sup>

Roedd chwe argraffiad wedi ymddangos erbyn i Thomas Wiliems ddechrau ysgrifennu ei eiriadur ef yn 1604, sef argraffiadau 1587, 1589, 1592, 1594, 1596 a 1600; cyhoeddwyd seithfed argraffiad yn 1606. Fel y nodwyd eisoes, cysodwyd yr argraffiad cyntaf (1587) â theip wedi treulio ac o ganlyniad mae’r print yn aneglur ar brydiau ar y ddalen.<sup>52</sup> Mae’r argraffiad hwn hefyd yn cynnwys cryn dipyn o wallau cysodi – trawsosod llythrennau, geiriau heb eu gwahanu’n gywir, ac ati. Defnyddiwyd teip o safon uwch ar gyfer yr argraffiadau dilynol, a chywirwyd y testun; gwellhawyd rhai diffiniadau gan gyfieithu rhagor o ddiffiniadau Lladin a oedd heb eu cyfieithu i’r Saesneg yn argraffiad 1587; ac ychwanegwyd geiriau newydd neu gyfuniadau newydd at gofnodion a fodolai’n barod. Bu’r mân welliannau yn yr amryfal argraffiadau a’r amrywiadau rhyngddynt yn werthfawr iawn wrth geisio penderfynu pa argraffiadau a ddefnyddiodd Thomas Wiliems. Gallwn fod yn hyderus mai’r argraffiad cyntaf, Thomasius (1587), a ddefnyddiodd yn bennaf (ac o bosibl yn unig) ar gyfer corff ei eiriadur, fel y prawf y cofnod canlynol ar *Bacchius*, a nifer tebyg ar draws yr wyddor:

TW: *Bacchius* \* Genus pedis est, ex tribus syllabis constans quarum prima brevis est, reliquae duae longae.

Th. (1587): *Bacchius*, \* Genus pedis est, ex tribus syllabis constans, quarum prima breuis est, reliquae duae longae.

Th. (1589), (1592), (1596), &c.: *Bacchius*, ii, Iun. *A foote consisting of one short and two long syllables, so called because it was vsed in writing, feasting, & beastlie cheare.*

Heb fod wedi trawsysgrifio rhagor o'r geiriadur, nid oes modd bod yn gwbl hyderus am ffynhonnell yr Atodiad (Peniarth 228iii, 173<sup>v</sup>–191<sup>v</sup>). O ran y sampl a archwiliwyd, mae geiriad y cofnodion yn yr Atodiad yn cyfateb i'r hyn a geir yn Thomasius (1592) a Thomasius (1596), sydd mwy neu lai'n unfath, ac eithrio'r ffaith fod geiriau Groeg wedi eu hychwanegu at argraffiad 1596. Gan mai geiriadur Lladin–Cymraeg (*Thesaurus Lingua Latinae et Cambrobritannicae*<sup>53</sup>) yr oedd Thomas Wiliems yn ei lunio, mae'n ddealladwy na fyddai am gynnwys y geiriau Groeg hynny yn ei waith, felly nid yw eu habsenoldeb yn torri'r ddadl. Fodd bynnag, os cywir yr awgrym uchod mai Thomasius (1596) yw'r *Lexico Graeco Thomasio* y cyfeiriodd Thomas Wiliems ato yn 1608 fel un o'i brif ffynonellau, yna gellir casglu am y tro mai dyna'r fersiwn a ddefnyddiodd ar gyfer yr Atodiad. Bydd angen adolygu hyn wrth drawsysgrifio gweddill y geiriadur a'r Atodiad.

Mae'n anodd credu y byddai Thomas Wiliems wedi croesawu'r cyngor a dderbyniodd i lunio geiriadur Lladin–Cymraeg yn hytrach na'r un Cymraeg–Cymraeg yr oedd wedi bwriadu ei gynhyrchu. O dderbyn y cynllun newydd, un o'r prif broblemau a'i hwynebaid oedd beth i'w wneud â'r holl ddyfyniadau enghreifftiol yr oedd wedi eu casglu o lenyddiaeth Gymraeg dros y ddeng mlynedd ar hugain flaenorol. Tystio i ddefnydd dangoseiriau a wna dyfyniadau mewn cofnod geiriadurol fel arfer, ond Lladin bellach fyddai'r dangoseiriau. Pwrpas y cyfeiriadau at awduron clasurol yng ngeiriadur Thomasius (ac a atgynhyrchir gan Thomas Wiliems) yw cynorthwyo'r darllenyydd i ddeall ystyr ei ddangoseiriau Lladin mewn testunau clasurol gyda chymorth cyfystyron yn yr iaith frodorol;<sup>54</sup> anodd yw diffiniow pwrpas y dyfyniadau Cymraeg. Yr unig beth y gallai Thomas Wiliems ei wneud â'r dyfyniadau oedd eu defnyddio i enghreifftio defnydd geiriau Cymraeg yn y diffiniadau. Byddai wedi llwyr sylweddoli mai dyma oedd man gwan seilio'i waith ar eiriadur Thomasius. Roedd hynny'n amlwg i John Davies hefyd, ac wrth olygu geiriadur Thomas Wiliems ar gyfer ei *Dictionarium Duplex* gosododd Davies y dyfyniadau enghreifftiol hyn yn rhan Gymraeg–Lladin ei eiriadur, sy'n llawer mwy synhwyrol.<sup>55</sup> O ganlyniad bu'n rhaid i Thomas Wiliems hyrwyddo ei waith fel geiriadur y ddwy iaith, y Lladin a'r Gymraeg: *Trysawr yr iaith Latin a'r Gymraec*, er bod yr isteitl – *ne'r Geiriadur cywoethocaf a helaethaf o'r wir dhiletiaith Vrytanaec*<sup>56</sup> – yn cyfateb yn nes at ei briod fwriad. Esbonia ymhellach yn y rhagair mai ei gymhelliad dros ymgymryd â'r gwaith oedd er mwyn cymoni a chyfansodhi dictionarium a *Geiriadur Brytanaec*, y gadw'r iaith einom (os duw a'i gwyl yn iawn) yn dragyvyth, er dig a

*mefl i Sudhas a holh elynion y loewiaith Vrytanaec.*<sup>57</sup> Sylweddolai mai'r unig beth i'w wneud oedd ystyried ei waith fel geiriadur *duplex*, sef *dictionarium* o eiriau Lladin ar y naill law, a *Geiriadur Brytanaec*, sef y Gymraeg, ar y llall. Hyd yn oed o dderbyn model Thomasius, petai amser ac adnoddau ariannol wedi bod o'i blaidd, gallwn fentro mai geiriadur â dangoseiriau Cymraeg a fyddai wedi ei fodloni fwyaf, neu fodel tebycach i *Dictionarium Duplex* John Davies o Fallwyd, efallai. Tybed ai cyfyng gyngor Thomas Wiliems a roddodd y syniad o eiriadur *duplex* i John Davies?

### *Detholiad o gofnodion*

Fel sail i'r astudiaeth gychwynnol hon o eiriadur Thomas Wiliems trawsyssgrifiwyd yn llawn dair rhan, un o bob blwyddyn y bu wrth y gwaith: llythrennau B (Peniarth 228i, 77<sup>v</sup>–89<sup>v</sup>), H (Peniarth 228ii, 77<sup>v</sup>–92<sup>v</sup>) a T (Peniarth 228iii, 106<sup>v</sup>–139<sup>v</sup>), yn ogystal â'r geiriau perthnasol o'r Atodiad (Peniarth 228iii, 173<sup>v</sup>–191<sup>v</sup>).<sup>58</sup> Ar y 122 tudalen llawysgrif hyn (cyfrifir tudalennau llawn yn unig) ceir cyfanswm o 3092 gair, sef cyfartaledd o 25.3 dangosair ar bob dalen. Ceir oddeutu 1470 tudalen yng nghorff y geiriadur (oddeutu 1505 o gynnwys yr Atodiad), a chan fod llawysgrifen Thomas Wiliems yn weddol gyson o ran ei maint, amcangyfrifir bod 37,191 gair yn y geiriadur cyfan (38,076 o gynnwys yr Atodiad); amcangyfrifwyd bod 36,626 gair yn Thomasius (1587).<sup>59</sup> Mae'r trawsyssgrifiad felly'n cynrychioli tua 8.7% o'r holl eiriadur. Am flwyddyn olaf y gwaith, rhwng mis Hydref 1606 a mis Hydref 1607, aeth Thomas Wiliems drwy argraffiad diweddarach o waith Thomasius a oedd wedi dod i'w ddwylo (Thomasius (1596), os cywir y ddadl uchod) gan godi geiriau nad oeddynt yn argraffiad 1587. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r geiriau hynny mewn Atodiad ar ddiwedd y drydedd gyfrol, ond os oedd lle ar waelod neu ar frig dalen yng nghorff y geiriadur ei hun, neu weithiau rhwng cofnodion, fe'u hychwanegodd yn eu lle priodol yno. Gellir adnabod yr ychwanegiadau hyn yn aml gan ei fod yn defnyddio inc brown golau erbyn 1607/8.<sup>60</sup>

Glynodd Thomas Wiliems yn bur glòs at Thomasius (1587), gan atgynhyrchu'r dangoseiriau Lladin (y terfyniadau ffurfdroadol, gwybodaeth ramadegol, ffynonellau clasurol ac ati) a chyfieithu'r rhannau Saesneg i'r Gymraeg wrth weithio. (Nid oes unrhyw dystiolaeth iddo wneud copi drafft ymlaen llaw.) Os oedd sylwebaeth mewn Lladin yn Thomasius

(1587), cadwai hynny, gan amlaf, heb ei gyfieithu (fel yn achos y cofnod ar *Bacchius* uchod). Gosododd y gwaith mewn dwy golofn yn y llawysgrif, gan ddilyn cysodiad Thomasius (1587). Mae'n rhaid cyfaddef bod rhyw olwg braidd yn flêr ar rai o dudalennau Peniarth 228, yn enwedig lle mae Thomas Wiliems wedi ychwanegu geiriau, rhagor o ddiffiniadau neu ddyfyniadau perthnasol. Er hynny, mae safon cywirdeb ei waith yn uchel iawn, ac unwaith yr arferir â hi, mae ei lawysgrifen yn glir a chyson, er gwaethaf protestiadau diweddarach John Davies, Mallwyd.<sup>61</sup> Yn sicr, ni chafodd John Edwards a'i gynorthwyydd unrhyw drafferth yn ei dehongli wrth lunio eu trawsysgrifiad cain a chywir iawn yn Brogyntyn I.9, I.10. At hynny, os yw rhannau Lladin cofnodion Thomas Wiliems yn wahanol i eiddo Thomas Thomas, naill ai o ran trefn, orgraff neu'r wybodaeth ramadegol a geir yno, Thomas Wiliems sy'n gywir fel arfer.<sup>62</sup>

Cyflwynir yma ddetholiad bychan o gofnodion o'r geiriadur, gan nodi eu lleoliad yn y llawysgrif rhwng bachau petryal yn dilyn y disgrifiad gramadegol neu'r ffynhonnell glasurol.<sup>63</sup> Fe'u dilynir gan gofnodion Thomasius ('Th.'), gyda dyddiad yr argraffiad perthnasol.

Rhoddir unrhyw eiriau y mae Thomas Wiliems wedi eu hychwanegu yn ddiweddarach, o Thomasius (1596) neu o ffynhonnell arall, mewn bachau onglog. Defnyddir bachau sgwâr i estyn talfyriadau yn y Lladin a hefyd enwau awduron a thestunau sydd wedi eu talfyrru yn y Gymraeg.<sup>64</sup>

Priflythrennwyd yn ôl arfer heddiw, gan nad oes priflythyren gan TW ar gyfer pob llythyren yn yr wyddor a chan ei fod hefyd yn anghyson o ran ei ddefnydd ohonynt. Rhoddir llythyren fechan i enwau adar, llysiau ac ati, er mai ei duedd ar y cyfan yw eu priflythrennu. Ceir yr un anghysondeb yn Thomasius. Cyflenwyd sillgollau; a lle ceir <f> / <F> am /ff/, rhoddir 'ff' yn y testun. Ni chynhwyswyd marciau diacritig y geiriau Lladin yn nhestun Peniarth 228 na Thomasius (1587) er hwylustod chwilio'n electronig. Defnyddiwyd 'ae' ac 'oe' yn lle 'æ' ac 'œ' am yr un rheswm. Dilynir atalnodi Thomasius a'i arfer o wahanu â cholon is-ystyron mewn diffiniad.

**Bacca**, ae, f. g. [i77v12] *Grawnen, pob rhyw ffrwyth man ar goet, aeron bychein, megys grawn y laurydhen, yr oliwydhen a'r cyphelyp: heuyt perl, ne'r gemm gwerthuawr, y myrtiil.* <Bacca palustris. Iun. *Lhygeirion.>*

Th. Bacca, cae, f. g. *Anie small fruite of trees: as bay berries, olive, and other like: also a pearle, mirtle.* (1587) + Bacca palustris, Iun. *A hurtle berrie.* (1596)  
**Balaena**, ae, f. g. Plin. [i78r21] *Rhyw vorbysc:*

*rhywogaeth voruarch, moruil.* <Cuiusmodi capta est in arena maris prope oppidu[m] Bellu[m] Mariscum, Anno dm' 1596. Longitud. pedium 63. Altitudinis et crassitud[in]is secu[n]dum proportionem. Capta est et alia circa oppidum Pwlheli in Com. Caern. 1601, erat eiusdem fere magnitudinis, paulo ante mortem Elizabethae Reginae Angliae.>

Th. Balaena, ae, f. g. Plin. *A great Sea fish, after some called a whirlepoole: a kinde of Whale.* (1587)

**Ballista**, ae, f. g. [i78v13] *Albrys, bwa croes, mangnel, neu lath mangnel mewn rhyuel y vwrw ne i daflu cerric, saethae neu bethe ereilh: ef elhir ei gymeryt yn lhe'r gwnn, y peirian cythreulic.*

Ballista, ae, f. g. *An instrument of warre to cast stones, or other thinges: a crosbowe, a brake or great engine wherewith an arrowe is shotte: it maie be vsed for a gunne.* (1587)

**Barathrum**, ri, n. g. Virg. [i79r18] *Dyfndwr anueitrol, mor gerwyn: cydhuglynn: lhe yn uffern, weithie butroc afratlon dreulgar: gwaelot yr stomach neu'r cylha: dyn glwth aruthr: heuyt carcharaduy dwfn yn Athen, pwli y gladhu coludhion.* <Baratum macelli. Horat. *Dyn ceulrhwth.*>

Th. Barathrum, ri, n. g. Virg. *An vnmeasurable deepenee [1596 deepnesse]: a goulfe: a place in hell, sometime a soking and wasting harlot or queane: the bottome of the stomach: an exceeding glutton: also a dungeon in Athens, a pudding pitte.* (1587); + Barathru[m] macelli. Hor. *An exceeding glutton, a greedy gut, a great eater* (1596).

**Bascania** [i80r4] *Rhyw van betheu didhefnydh, y bydhei'r gofeint yn eu crogi gyferbyn a ffenestri eu gefeilae, y gau alhan genvigenn.*

Th. Bascania, \* Little trifles that Smithes were wonte to haue hanged before their shoppe windowes to exclude enuie.

**Batis**, is, f. g. Plin. [i80v2] *Lhyseun a elwir gan y Groecwyr Crithamon, yn Ffrancaec, Crest marin: yn y Sasonaec, Samper, sef yw hynny S. Petr, yngymraec, corn y carw o lann y mor; ef a'i haruerir mewn saledae, neu y beri chwenychu bwyt: heuyt rhyw ederyn bychan.*

Th. Batis, is, f. g. Plin. *An hearb called of the Greeks Crithamon: of the Frenchmen Chrestmarine: in English Sampiere, which is vsed in Salads: a litle bird also much like the bunting.* (1587)

**Baubor**, aris, depon. Lucret. [i80v12] *Lheisio, udo, baw baw, cyfarth ual ci.*

Th. Baubor, aris, depon. Lucret. *To barke like a dogge.* (1587)

**Baxeae**, arum, f. g. Plaut. [i80v14] *Rhyw scidiae rhagisel, ne phelhych, escidieu y'w taraw am draet.*

Th. Baxeae, arum, f. g. Plaut. *A kinde of slippers, or pantofles.* (1587)

**Bellicosus**, a, um, et Bellicosissimus. [i81r20] *Lhuedhoc, brwydrgar, rhyuelgar: lhuydhoc: grymus mewn rhyuel, lhuedhoccof, rhyueloc, lhawn rhyuel.* <*S Helen mam Cwstenin mawr yr Imeratr Christiawn cyntaf teilwng y'w chofio, a elwyd, Helen Luydhoc, id est Bellicosa, a dhuc y Groes vendiceit o Gaerselem.* Anno Chri' 320.>

Th. Bellicosus, a, um, & Bellicosissimus. *Valiant in armes, fierce, warrelike: martiall: apte to warre, and full of warre, or spent in warre.* (1587)

**Bellis**, Bellius, ne Bellium. n. g. Plin. [i81v4] *Lhygat y dydh lyseun, yr as pygan, sensigl, yr vn.*

Th. Bellis, Bellius, or Bellium, n. g. Pli. [sic] *A daisie: also a fish called a Thorneback.* (1587)

**Bellum**, li, n. g. [i81v19] *Yr holl amser y pery rhyuel: rhyuel, aban, trabludh, trin, brwydrdrin, ymladh, maes o rhyuel, cat, aergat, teruysc, midlann, <carthann>.*

Maes yw midlan mann yw menn.

D[afydd] H[epynt].

Bellum intestinum. Cywdawdawl deruysc.

vychan, marchoc midlan mad.

Iolo [Goch].

Aban a dhaw bevnydh yn yn bro ni a bair newyn.

Iolo Goch.

<Gwann garthan gyrch yn ymliw. Cyndhel[w] y deulu owein>

Th. Bellum, li, n. g. *All the time that warre doth continue: warre: battell, conflict, armes.* (1587)

**Betonica**, ae, f. g. Plin. [i82v18] *Danawc lyseun, dannogen S. Ffred, am ei bod yn dhannedh ne'n vylcheu o'i hamgylch, Cribae S. Ffred. Lhyseu rhagorol y gadarnhau'r penn a'r emenydh, yr esceueint, yr avu a'r dhuec, yr Renae a'r chwesicen, ac yn dalvyrh yr holh gorph.* Est et altera Betonicae species, teste Aegineta, herba vnicaulis, ramulos habens pulegii, sed tenuiores et gustu fatuos, quae à superiore specie differt, non effectu. *honn yngymraec, lhyxae Christ, ail lhyseu Lhewelyn, clwyd y dhaear.* Est et alia species, Vetonica Coronaria, seu Vetricum Altile, vulgo Flores Tunici, aut Garyophilli. Ruell. *Clows Sawyrlhys. Betonica, lhydwyuawc.* Li. Ihan daf.

Th. Betonica, ae, f. g. Plin. *An hearb called Betonie.*

Est & altera Betonicae species, teste Aegineta, herba vnicaulis, ramulos habens pulegij, sed tenuiores & gustu fatuos, quae à superiore specie differt, non effectu. Est & alia species, vetonica coronaria, seu vetricum altile, vulgo Flores tunici, aut garyophilli. Ruell. (1587)

**Bibulus**, a, um, Horat. [i83r9] *Yn sucno'n gyflym:*

*yfgar: vn ag awydh y yfet: et Bibulus Lapis, Virg. y maen pumex, y maen tylhoc, yr ysgafnvaen, caboluaen memrwn.*

Th. Bibulus, a, um, Horat. *Sucking vp quicklie, desirous to drinke and swill: that drinketh greedilie: & Bibulus lapis, Virg. the pumish stone.* (1587)

**Botellus**, li, m. g. Mart. [i86r22] *Selsigen ne vonochen wedy gwneuthur o gic hwch, monochen halht.*

Selsigen o vewn hen het

Simnai o brenn sy mewn brat.

D[afydd] ap Edm[wnd] y'r pipae.

Th. Botellus, li, m. g. Mart. *A sausage or pudding made of porke.* (1587)

**Brachiale**, is, n. g. Plin. [i86v28] *Adhurn y braich, bracelet, breichrwy.*

Th. Brachiale, is, n. g. Plin. *A garnishing of the arme, a bracelet: a fine sleeue, or a bracer.* (1587)

**Branchiae**, arum, f. g. Plin. [i87r6] *Cregyn pyscot, sef y lheoedh egoret yn eu gydhsae, lhe'r ydys yn tybiaw eu bod yn cymeryt eu hanetl.* Calep.

Th. Branchiae, arum, f. g. Plin. *The gilles of fish.* (1587)

**Buccellatum**, ti, n. g. Spart. [i88r27] *Bara biscet, wedy grasu dheuwaith, a'i wneuthur yn deisenae: bara milwyr ne ryuelwyr <mor, ne longwyr>.*

Th. Buccellatum, ti, n. g. Spart. *Bisket, twise baked and made in cakes: bread for souldiours.* (1587); ... *Bisket braise, bread for mariners.* (1596)

**Bulbine**, es, f. g. Plin. [i88v29] *Lhyseun, a dail mal cennin, ac a blodeun rhudhgoch: cennin y cwn, scalions, cibol, sibol.*

Th. Bulbine, es, f. g. Plin. *An hearbe hauing leaues like to Leekes, and a purple floure: Dogges leekes: Skallions: Chibols.* (1587)

**Bullans**, part. Plin. [i89r4] *Clochoc, a chlochae ne'r morweisieit arno.* <Vrina bullans, Plin. Trwnc clochoc.>

Th. Bullans, part. Plin. *Hauing bubbles.* (1587) + Vrina bullans, Plin. *Hauing bubbles.* (1596)

**Haemorrhois**, idis, f. g. Cels. [ii78r25] *Clefyt yn y cyfeistedh megys tethae ne dhyuadenea drwy chwydh y gwythenea, alhan o'rhaen y rhet gwaet, lhedewigwst, clwy'r marchocion: hevyt sarph, yr honn os brath dhyn, ef a waeda hyt varwolaeth. <heuyt gwythen yn gwaedu 'ngwdhwf croth gwraic.>*

Th. Haemorrhois, idis, f. g. Cels. *A disease in the fundament like to teates or wartes by the swelling of the vaines, out of the which issueth bloode called hemorrhoides or piles: also a serpent, of whome a man beeing striken bleedeth to death.* (1587)

**Haeredipeta**, ae, com. g. [ii78v5] *Yr hwnn drwy wenieith, gobr, a gwerth, ag ereih ystrywiae, sy'n*

*lhauurio y geisio wlhys da a ffauor hen dhynion, a gwragedh gwedhwon, ag velhy vot yn etiuedh vdhunt.*

Th. Haeredipeta, ae, com. g. \* *He that by flatterie, bribes, and other such sightes, laboureth to get the good wil and fauour of old men and widowes, and so to become their heire.* (1587)

**Halcyon**, onis, et Halcydon, f. g. s. b. [ii79r3] *Ederyn bychan, yr hon a nytha ar veiston y mor, ag yno mae hei'n arwydh tywydh tec. Mal y dywedir mwy o chydic yw nag ederyn y to, ag edenydh rhudhion brithwynion, a gwdhwf mein, a phic werdh hir, anhawdh ei gwelet.* Ambros. Arist. *dau rywogaeth sydh o honi, vn lauar, hono yw'r leiaf, yn y cyrs y trig: ag vn vut aflaref.*

Th. Halcyon, onis, f. g. s. b. *A small bird which maketh her nest vpon the water of the sea, and then it is a token or signe of faire weather: the kinges fisher.* (1587)

**Halimus**, Diosc. [ii79r14] *Lhyseubren adhas y gau ag efo: mor helic, helic pigoc.*

Th. Halimus, Diosc. *A shrubbe apt to hedge with: it is also the oyle of almonds.* (1587)

**Harpagium**, Iun. [ii80r8] *Crochan tindwlh y dhyfrhau gardh.* Graec.

Th. Harpagium, Iun. *A watering potte for a garden.* (1587)

**Heana**, ae, f. g. [ii80v15] *Sylfaen, bonsang lhong o'r graean y'w gwneuthur yn dhiysgogach: graeanlwyth.*

Th. Heana, ae, f. g. \* *A foundation, also a balassing of a shippe.* (1587)

**Hebes**, etis, et Hebetior. [ii80v20] *Lhusgeneidh, hurt, talhsoch. Li. lh. daf. dyn trwsgl anwybotol, heb vlaen arnaw, nyt bywioc, trymhyrdhic, pwlolwc, palhedic, coeg.*

Th. Hebes, etis, & Hebetior. *Slow, dull, a blockish and rude fellow, nothing eiger, not quick, blunt, heavie, dimme.* (1587)

**Helice**, es, f. g. [ii81v6] *Y sygn a elwir Vrsa maior, yr Arthes Vawr yn y Gogledh.*

Th. Helice, es, f. g. *The signe which is called Vrsa major: the North pole.* (1587)

**Heliotropium**, pii, n. g. Plinius. [ii81v13] *Tyrnsol, heuldro, lhyseu a liwia wwytydh ei suc: mae'n troi gyta'r haul voreu a hwyr.*

Th. Heliotropium, pij, n. g. Plin. *Ruds or wartwoort: it turneth with the sunne both at rising and going downe.* (1587)

**Heluor**, aris, depon. [ii82r1] *Cegu, bolera, lhowio bwyt, hopranu, bwyta'n aflerw, dinestru, diva, afratloni, gwneuthur glohest, treulio'n wancus afratlawn: safheidio.*

Th. Heluor, aris, depon. *To ravin, to devoure, to consume, to waste ravenouslie.* (1587)

**Heluus**, a, um, Varr. [ii82r3] *Rhwng coch a gwynn, lhiw peithyn pridh berwedic wedy' haner losgi, lhiw cic, gwyngochliw.*

Th. Heluus, a, um, Varr. *Betweene redde and white, the colour of a bricke being hafse burned, carnation or flesh colour.* (1587)

**Heptaphylon** [ii82v21] *Y lhyseun Tormentilla, y saithdheilen, y drescl, melyn yr eithin, teriac y tlodion, <rhagorol y rwymo'r bola>.*

Th. Heptaphylon.\* *The hearbe Tormentill.* (1587)

**Hernia**, ae, f. g. Mart. [ii83v19] *Y clefyt a elwir bors, bolwyst, bolystyn: torriat lhengic, pan syrthio'r coludhion y'r pelhenae, ne'r ceilhae. Peteir rhywogaeth sydh honei, bolwyst goludh, bolwyst lynn, bolwyst pelhenae, a bolwyst wynt.* Vide Ramex.

Th. Hernia, ae, f. g. Mart. *The disease called bursting: a rupture, when the bowels be fallen into the coddes,* vide Ramex. (1587)

**Hiberis**, idis, f. g. [ii84r29] *Lepidium sylvestre yr yn lhyseun. Berwr Scatica, berw'r gwylhtion, da ragorol rhac y sciatica wedy guro mhenn blonec, a'i roi deirawr wrtho, yuo twymdhwyro'r lhe, wedy cocho o wres y lhyseun.*

Th. Hiberis, idis, f. g. *An hearbe, which Ruellius thinketh to be Lepidium silvestre, the herbarists call it Valeriana pratensis.* (1587)

**Hieratica**, Plin. [ii84v15] *Papyr ffein wedy 'berthoci'n vnic y lyurae crefydhus.*

Th. Hieratica, Plin. *Fine paper, dedicated onelie to religious bookees.* (1587)

**Hippago**, inis, f. g. Fest. et Hippagoga, ae. [ii85r21] *Yscrapp ymmot y dhwyn meirch drosodh.* Isid.

Th. Hippago, inis, f. g. Fest. & hippagoga, gae, Isid. *A ferry boate to carie ouer horses.* (1587)

**Hippuris**, is, f. g. Plin. [ii85v29] *Rhoneh y march lyseun, y gedowrach, hei a rwym y giewynae a dorrer.*

Th. Hippuris, is, f. g. Plin. *Horsetail, commonly called cattes taile.* (1587)

**Hispania**, ae [ii86r22] *Yr Yspaen wlat hynot ardherchawc.*

**Histrix**, icis, f. g. Iun. [ii86v6] *Porcupin, rhyw dhraenoc yn seuthu dhrain o dhyar ei gefn wrth ei vympwy ehun.*

Th. Histrix, icis, f. g. Iun. *A porkepynne.* (1587)

**Horologium**, gjj, n. g. [ii88r15] *Orloes, cloc, ne'r dial a wneler ag olwynion a rotae drwy'r extro yn dangos pa vodh y cerdhaft yr oriae.* Horologium sciaticum, uel Solarium, Iun. *Dial haul, orloes cysgot.*

Gwrle telyn ag orloes  
Gormodh rhodh gwr medhw a'i rhoes.  
D[afydd] ap G[wylim].

Th. Horologium, gjj, n. g. *A clocke or diall made with vices, and shewing how the houre doth passe.* Horologium sciaticum, vel solarium, Iun. *A sunne diall.* (1587)

**Hortus**, ti, m. g. [ii88v25] *Gardh, catlas o irlyeu lhei tyfont y vlodeuo, lhyseulann; gardh lvniawc, wrth lvniawdur: hevyt treflan, Fest. Horti, in plur. Gardh ne berghan o goet plann er dyfyrwch a digrifwch: coetwic mewn tref. Horti Adonidis, Iun. Gardh o dhyffyrwch a digrifwch; Horti imaginarii, pridhlestri y roi yndhynt lyseu blodeuawc mewn ffenestri gwyr cyphredin diswydh, Horti pensiles, Iun. Gerdhi ar bennae'r tai.*

Th. Hortus, ti, m. g. *A garden wherein hearbs and floures doe grow: a knot garden; also a village, Fest. Horti, in plur. a garden or orchard set with trees for pleasure and delight. horti Adonidis, Iun. A garden for pleasure and delight. horti imaginarij, Iun. Bough pots, or floure pots set in the windowes of priuate houses. horti pensiles, Iun. Gardens made aboue houses, as vpon the leades, &c.* (1587)

**Hydrophobia**, Cels. [ii91r7] *Clefyt pan ofno'r claf dhwr yn angerdhol wedy vrathu o gi cyndheirioc.*

Th. Hydrophobia, Cels. *A disease when the patient feareth water exceedingly.* (1587)

**Hyoscyamus**, mi, m. g. p. et t. b. Plin. [ii91v10] *Y lhyseun henban, y bele, lhewic yr iar, phonny bugeil, crys y brenhin, ffa'r moch.*

Th. Hyoscyamus, mi, m. g. p. b. & t. b. Plin. *The hearb called henbane.* (1587)

**Hysginus color**, Iun. [ii92v20] *Lhiw tebyc y'r scarlat: cochliw ysgafn, ar gephyl ne varch, gwineugoch, gwine goleu.*

Th. Hysginus color, Iun. *A colour like vnto scarlet: a light red, in a horse it is called a bright bay.* (1587).

**Tabesco**, is, bui, ere. [iii107r5] *Nychu, hirnychu, edwi, delwi, daruot: lhiho ymeith, todhi, lhygru, pytru.*

Th. Tabesco, is, bui, ere. *To consume & pine away, to corrupt, to languish: to be extreamely leane, to weare or waste away, to melt away: to draw to an ende.* (1587)

**Talpa**, ae, m. et f. g. [iii108v12] *Y wadh, daeardwrch, twrch daear, gwadh, o hyny pridh y wadh, ag nyd val y dywedant y dynion lhwg eiriae, <pridh y wal>, twrch ordhodyn.*

Mae'r Goron ym mrig Eryr  
os gwir lhadh y wadh a'i wyr  
D[afydd] Lh[wyd ap] Lh[ywelyn]  
ap Gr[uffudd] y'r Brenhin Hari Seithuet  
Tumulus Talpae, pridh y wadh, Maluria. Idem.  
Pan vo moeliri ar benn maluria  
y bydh escit asgelh gwepia. Diareb.

- Maluria twmpath y twrch daear.  
 Th. Talpa, ae, m & f. g. *A mole or want.* (1587) + *a modiwart* (1596)
- Taratantara**, Enn. [iii109v10] *Lhais yr vtcorn, Taro, taro, tyre tan taro, wrth gyphefylwyd yn hen Vrutanieit a'i maruere wrth roi cyssur yn eu milwyr yn y gat, val yr oedh d.<sup>or</sup> dauis, prif physycwr yn tybiaw. Nyt oes vn iaith yn Ewropa yn aruer nag yn deualhu'r geiriae onyt ein Brytaneidh Cymru ni.*  
 Th. Taratantara, Enn. *A sound of the trumpet.* (1587)
- Tardissime**, aduerb., Plin. [iii109v21] *Yn lhugeneidh iawn, yn arafaf ar y garthe.* Cum tardissime, Plin. *O'r pelhaf.*  
 Th. Tardissime, adverb. Plin. *Very slowly. Cum tardissimè,* Plin. *At the farthest.* (1587)
- Torvè**, aduerb. Plin. [iii123v18] *Yn sur, yn guchioc, yn vlwng, yn drwyndrist, yn drwynsorh, yn drwyn sarruc, yn arwguchioc, yn gwneuthur talcen tarw.*  
 Th. Torve, adver. Plaut. *Sowrely, grimly, lowringlie, crabbedly, ruggedly, sternly, as if he had eaten bull beefe.* (1587)
- Toruus**, a, um. [iii123v23] *Creulawn a phyrnic y olwe, a lhygeit lhymion blwng, afrywioc, sur, gygus, cuchioc, trwynsor, trwyndrist, erchylh, trwynsarruc, survlwng, garwguchioc, aflen, terylh.*  
 A lhygeit yn vrithlas tratherylh. y verch bengrech dhu a dhaeth y y [sic] lys Arthur. Histor. Peredur.
- Th. Torvus, a, um. *Cruell and sturdie in lookes, grim, sterne, terrible, fell, frowning, lowting, sower, rough, and vnplesant.* (1587)
- Tractatus**, us, m. g. verb. [iii124v1] *Teimlat, triniat, ymmyrreth, traethawt, dangosiat peth ar eiriae: heuyt parth o lyuer lhe teimler peth, traethawt,* Plin.  
 Th. Tractatus, us, m. g. verb. *An handling, a describing or intreating of any thing in wordes: also a part of a booke wherein any thing is handled, a treatise,* Plin. (1587)
- Tragum**, gi, n. g. Plin. [iii125r19] *Peth a wneler o'r gwenith, ptisan ne iscelh, haidh: heuyt rhwyt y wneuthur tynn.*  
 Th. Tragum, gi, n. g. Plin. [iii125v15] *A thing made of wheate like a Tyzan: also a net called a dragge.* (1587)
- Tranquillus**, a, um. [iii125v22] *Lhonydh, yn gorhwyso, araf, tawel, lharieidh, hedhychol, tec, cynlhaith, heb donnae, lhyfn, lhyfnvor: <heb donn ar dhwr>.*
- Th. Tranquillus, a, um. *Quiet, in rest, still, peaceable, faire, calme, without sourges.* (1587)
- Translatus**, a, um. [iii127r16] *Wedy arwein trosodh, wedy lamdwyo, wedy drosglwydho, wedy gyfieithu, a'i drosi o iaith aralh: heuyt wedy gyrchu'mhelh; wedy droi a'i newitio.*
- Th. Translatus, a, um. *Transported, translated, conueyed from one to another: also farre fette, turned, changed.* (1587)
- Tugurium**, rii, n. g. [iii135r6] *Deueituy, tuy'n y wlat a pharet rhedyn, tuy rhedynyn, wedi wisio [sic] a rhedyn ne a hesg, cwt, cut o duy bychan, tuy o lenni.*
- Th. Tugurium, rij, n. g. *A cottage, an house in the countrie, a sheepheards cottage or shed.* (1587)
- Turio**, onis, m. g. Colum. [iii136v19] *Cangen ieuanc, twf blwydhydhn prenn, blaendwf, bacluryn irdwf.*
- Th. Turio, onis, m. g. Colum. *The tendrill or young branch of a tree.* (1587)
- Turtur**, uris, m. et f. g. Plaut. [iii137r14] *Colomen Vair, turtur; heuyt pysc, mal y tybiant rai, brithylh. Ny chymhara'r turtur wedy marw y chymhar.*
- Nyt rait tir iach turtur wyf. Le. Mon.
- Ef aeth ei gymar yn vut yn durtur telyn deirtut.  
 Mar[wnad] Io[n] Eos, D[afydd] ap Edm[wmd]
- Th. Turtur, uris, m. g. *A bird called a turtle: also a fish that some thinke to be a trowte.* (1587)
- Tussilago**, inis, f. g. Plin. [iii137r22] *Lhyseun da rhag y peswch, os berwir mewn diot, ne gymeryt sych enneint o'r dail, gwrthlys yr avon, carn ebol, yr alan bychan. Ei dhail ynt yn ogrynnion ag aml gonglae, y tu vchaf yn las, a'r isaf yn orwyn, e dyf yn agos y'r dhaear.*
- Th. Tussilago, inis, f. g. Plin. *An hearbe good for the cough called solefoote, coltsfoote, horsehouse [1596 horsefoote], or ball foote: of the Apothecaries, vngula caballina. It hath leauues like Iuie, but bigger; with many corners, the vpper part greene, the neather whitish, and lieth flatte on the ground.* (1587)
- Tylus**, li, m. g. Plin. [iii137v24] *Pryfyn yn aros dann gerric ne lestri pridh yn vynychaf, lhawerdroet yw, gogethin o liw, a phan gyfhyrdher ef, a'n belen gronn. Gwrach y lhudw.*
- Th. Tylus, li, m. g. Plin. *A vermine lying vnder stones or tyles, commonly a Cheselip.* (1587)

Dengys y detholiad bychan hwn yn eglur awydd Thomas Wiliems, y dyneiddiwr, i arddangos copia neu gyfoeth yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ei chyfoeth geirfaol a'i gwnâi hi'n holol abl a chymwys i fod yn iaith dysg. Dan **Bellum**, er engraifft, ceir deuddeg gair (*rhyuel*,

*aban, trabludh, trin, brwydrdrin, ymladh, maes o ryuel, cat, aerget, teruysc, midlann a carthann*) i gyfateb i'r Saesneg 'warre: battell, conflict, armes'; ac i gyfateb i 'pumish stone' dan **Bibulus**, ceir y *maen pumex, y maen tylhoc, yr ysgafnvaen, caboluaen memrwn*. Er mwyn cyfleu ehangder geirfaol y Gymraeg, fe'i gwelir hefyd yn tynnu'n drwm ar yr iaith lafar, yn ogystal â ffynonellau llenyddol. Dan **Heluor** ceir deuddeg o eiriau neu ymadroddion Cymraeg am lowcio bwyd i gyfateb i bedwar yn Thomasius, ac o safbwyt y cofnod hwn, mae'r dystiolaeth gynharaf yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC) dros *cegu, hopranu* yn ogystal ag *aflerw* (rhagflaenydd *blêr*) oll i'w canfod yng ngeiriadur Thomas Wiliems, sy'n awgrymu ei fod yn tynnu yma ar yr iaith lafar. Mae *baw baw*, un o'r pedwar gair sydd ganddo am **Baubor**, sef 'To barke like a dogge' yn Thomasius, o bosibl yn tynnu hefyd ar iaith plant.

Agwedd arall ar *copia* yw'r ffaith nad yw'n gaeth i'r syniad o un ffurf neu un sillafiad safonol ar air, ac mae'n rhaid i ni heddiw, sy'n anelu at gysondeb clinigaidd yn ein hysgrifennu, fod yn ofalus i beidio â gweld hyn fel gwendid yn ei Gymraeg. Ei nod, fel nod William Salesbury o'i flaen, oedd dangos pa mor hyblyg, cyhyrog a pharod i dyfu oedd yr iaith Gymraeg, a chan hynny gwelir ffuriau llenyddol, ffuriau llafar yn ogystal â benthyciadau o ieithoedd eraill yn cydorwedd gyda'i gilydd. Er mai *hi*, er enghraift, yw ei ffurf arferol am y rhagenw benywaidd trydydd unigol, defnyddia'r ffurf dafodieithol *hei* hefyd yn achlysurol, e.e. dan **Halcyon** *mae hei'n arwydh tywydh tec*. Nid yw ychwaith yn ymatal rhag cynnwys benthyciadau Saesneg, e.e. *bracelet* dan **Brachiale**. Roedd y gair hwn eisoes wedi ei fenthyg i'r Gymraeg (gw. GPC dan *brasled, braslet*), felly mae'n annhebygol mai ei gynnwys yma fel gair Saesneg a wnaeth; ond drwy gadw sillafiad y Saesneg – fel y cadwodd Williams Salesbury orgraff Ladin ar gyfer benthyciadau o'r iaith honno – mae yntau'n pwysleisio tras 'amlhil' y Gymraeg, a'r ffaith fod ei gerfa'n cynyddu'n gyson wrth iddi amsugno geiriau o ieithoedd eraill.

Mae amrywiaeth orgraffyddol yn agwedd arall ar *copia*, fel yn achos y terfyniad lluosog *-au*: y ffurf Gymraeg Canol *-eu* sydd fwyaf cyffredin ganddo, ond ceir hefyd y ffurf ddiweddar *-au*, y ffurf dafodieithol *-e*, a'r ffurf *-ae* mewn ymgais i'w gysylltu â'r terfyniad Lladin *-ae*, gan ddilyn arfer William Salesbury. Mae ei orgraff yn gymysgedd o orgraff Cymraeg Canol a thueddiadau mwy diweddar, yn nodwediadol iawn o iaith ysgrifenedig y cyfnod. Yn gyson â Chymraeg Canol nid yw bob tro'n nodi'r rhagenw mewnol 'i ar ôl y llafariaid *-i, -y, -u* (oherwydd cywasgiad) neu weithiau ar ôl llafariaid eraill: dan **Translatus** ceir *wedy drosglwydho, wedy gyfieithu* am 'wedi'i drosglwyddo' ac 'wedi'i gyfieithu', fel y dengys y treiglad meddal; dan **Histrix** *rhyw dhraenoc yn seuthu dhrain* ('saethu'i ddrain).

Fe'i gwelir mewn mannau yn defnyddio rhai cystrawennau a threigladau y byddwn ni'n eu hystyried bellach yn ansafonol, er eu bod yn ddigon cyffredin heddiw yn yr iaith lafar. Mewn gwirionedd mae ein gramadeg safonol ni heddiw yn seiliedig i raddau helaeth ar iaith beirdd oes aur y cywydd, fel y'i dehonglwyd gan John Morris-Jones ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Byddai astudiaeth drylwyr o iaith a gramadeg Thomas Wiliems, fel y'i ceir yn y geiriadur, yn ddadlennol iawn.

Mae'r dyfyniadau enghreifftiol yn agwedd bwysig ar y geiriadur. Fel y gwelwyd, daw nifer ohonynt o'i gopi o eirfa farddol Wiliam Llŷn yn Caerdydd 4.330, ond gallwn dybio bod y rhan fwyaf i'w holrhain i gopïau o destunau llenyddol a wnaeth Thomas Wiliems ei hun o tua 1574 ymlaen. O'r sampl a drawsysgrifiwyd, bu modd cysylltu'r rhan fwyaf ohonynt â thestunau sydd wedi goroesi (er nad â'r union fersiynau gan amlaf); ond erys nifer yn anhysbys, gan roi syniad i ni o faint o destunau a gollwyd dros y canrifoedd. Er mai o destunau barddoniaeth y daw'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau, tynnir hefyd ar y Mabinogion, testunau hanesyddol a chyfreithiol a bucheddau'r saint.

Gwelir bod Thomas Wiliems yn awyddus iawn yn ei waith i ychwanegu gwybodaeth sydd o ddiddordeb arbennig i'r darllenyydd Cymraeg. Er enghraifft, dan **Balaena** 'morph', ychwanegodd wybodaeth am ddu forfil a olchwyd i'r lan yn ddiweddar yn agos i Fiwmaries a Phwllheli.<sup>65</sup> O ddiddordeb hefyd i'r Cymro mae'r wybodaeth dan **Taratantara**, a ddisgrifir yn syml yn Thomasius fel 'A sound of the trumpet'. Cyfieithir hyn gan Thomas Wiliems fel *Lhais yr vtcorn* ac â ymlaen i gyfeirio at draddodiad a gafodd gan Siôn Dafydd Rhys (*d. or dauis, prif physycwr*), fod yr hen Gymry (*eyn hen Vrutanieit*) yn arfer adrodd y geiriau *Taro, taro, tyre tan taro*, o bosibl i gyfeiliant yr utgorn, er mwyn codi hyder eu milwyr ar faes y gad. Ystyrid y geiriau'n gyfrin a phwerus, ac esbonia'n falch nad oes yr un iaith yn Ewrop yn arfer nac yn deall y geiriau hynny heblaw am 'ein Cymry Brytanaidd ni'. Mae'r geiriadur yn frith o sylwadau difyr a gwerthfawr o'r fath. At hynny, os yw'n cyfieithu cofnod sydd braidd yn foel yn Thomasius, mae'n aml yn ychwanegu esboniad llawnach, er diddordeb neu eglurder i'r Cymro: er enghraifft dan **Branchiae**, a ddiffinnir yn syml yn Thomasius (1587) fel 'The gilles of fish', cyfieithir yn *Cregyn pyscot*, ac ychwanegir *sef y lheoedh egoret yn eu gydhfae, lhe'r ydys yn tybiaw eu bod yn cymeryt eu hanetl*; a than **Histrix** a ddiffinnir yn Thomasius fel 'A porkepynne', esbonnir, *Porcupin, rhyw dhraenoc yn seuthu dhrain o dhyar ei gefn wrth ei vympwy ehun*. Diddorol hefyd yw'r disgrifiad o fythod neu luestai â pharwydydd neu doeon o redyn, hesg neu lenni yn y cofnod ar **Tugurium** 'cottage' neu 'Sheapheards cottage or shed'; tybed a oedd lluestai o'r fath yn gyffredin yn Nyffryn Conwy

yn y cyfnod? Dro arall mae ei ddiffiniadau'n amlygu ei farn neu ei brofiadau, er enghraifft am ‘gunne’ a roddir yn Thomasius dan **Ballista** ceir ganddo *gwnn*, a'r sylw pellach, *y peirian cythreulic*; a difyr yw'r ymadrodd *yn arafaf ar y garthe* a ychwanegodd at *Yn lhusgeneidh iawn* ('Very slowly') dan **Tardissime**, o gofio am y gelltydd serth yn Nhorefriw!

Agwedd bwysig iawn ar y geiriadur yw'r hyn a ddysgwn am ddiddordebau Thomas Wiliems fel meddyg proffesiynol. Ceir llawer iawn o wybodaeth arbenigol yn ei gofnodion am lysiau meddyginaethol, afiechydon, clefydau a rhannau'r corff. O'u cymryd ynghyd, rhoddant inni syniad o hyd a lled gwybodaeth feddyginaethol ymarferwr proffesiynol yn Nyffryn Conwy yn chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn aml, lle ceir diffiniad syml o enw llysieuyn gan Thomasius, ceir disgrifiad llawn gan Thomas Wiliems, yn cynnwys ei enwau amrywiol, ei rinweddau meddyginaethol, ei nodweddion ffisegol (er mwyn gallu ei adnabod yn y maes), a chyfarwyddyd ar sut i'w ddefnyddio. Er enghraifft dan **Hiberis**, *berwr sciatica, berw'r gwylhtion*, ychwanega wybodaeth am sut i ddefnyddio'r llysieuyn hwn ar gyfer trin siatica. Yn yr un modd gyda chlefydau: dan **Hernia** disgrifir pedwar math o ‘fors’, yn hytrach na'r un yn unig a ddisgrifir yn Thomasius, gan dynnu ar ei wybodaeth a'i brofiad meddygol, fel y gwna o dan **Haemorrhois** lle yr ychwanega *heuyt gwythen yn gwaedu 'ngwdhwf croth gwraig* ar ddiwedd y cofnod, ystyr nas ceir yn Thomasius. Gwelir yma eto ei awydd unwaith eto i gyfleo *copia* yr iaith Gymraeg wrth iddo luosogi enwau am wahanol lysiau: er enghraifft dan **Hyoscyamus** ceir ganddo chwe enw – *henban, y bele, lhewic yr iar, phonn y bugeil, crys y brenhin,ffa'r moch* – i gyfateb i ‘henbane’ syml Thomasius.

Nid oes amheuaeth am werth mynd ati i drawsysgrifio'r geiriadur cyfan, er mwyn datgelu'r cyfoeth ieithyddol a'r wybodaeth eang sydd ynddo. Nid yw Thomas Wiliems yn gor-ddweud wrth ddisgrifio'r gwaith fel y *Trysawr ni bu 'rioet ei gyphehyp ynghymru o'r blaen* – a ‘thrysor’ yma yn yr ystyr benodol o ‘drysorfa’ neu ‘ystorfa’ o eiriau a gwybodaeth, fel y defnyddiodd Thomas Cooper y gair *Thesaurus* am ei eiriadur yntau.<sup>66</sup> O osod ei gofnodion ochr yn ochr â rhai Thomasius, fel y gwnaethpwyd yn y detholiad uchod, nid yn unig y gwelwn yn eglur ddawn Thomas Wiliems fel geiriadurwr, cyfieithydd ac ieithydd, ond dysgwn hefyd am ei wybodaeth a'i ddiddordebau yn ehangach ac yn benodol am ei waith fel meddyg, a'i wybodaeth lysieuol a meddyginaethol.

*Aberystwyth*

*ANN PARRY OWEN*

At ddiben Mynediad Agored, mae'r awdur wedi cymhwysyo Trwydded Priodoliad Creative Commons (CC-BY) i unrhyw fersiwn Llawysgrif Awdur a Dderbyniwyd sy'n deillio o'r cyflwyniad hwn.

<sup>1</sup> Hoffwn gydnabod fy niolch diffuant i'r canlynol am eu cymorth ac am sawl sgwrs ddifyr wrth imi baratoi'r erthygl hon: Gruffudd Antur, Gareth Bevan, Mary Burdett-Jones, John Considine ac Andrew Hawke.

<sup>2</sup> Peniarth 228i, 7<sup>r</sup>; cyflenwyd sillgollau yma ac mewn dyfyniadau pellach o'r llawysgrif.

<sup>3</sup> Ceir bywgraffiad cynhwysfawr gan J. E. Caerwyn Williams, yn enwedig o safwynt ei waith fel geiriadurwr, yn 'Thomas Wiliems, y Geiriadurwr', *Studia Celtica*, 16/17 (1981/2), 280–316. Gw. hefyd Daniel Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c.800–c.1800*, tair cyfrol (Aberystwyth: National Library of Wales and University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2022), cyf. II, tt. 199–200 (WILIEMS, Thomas (1545/6–c.1622). Dibynnir ar Huws, *Repertory*, yn yr erthygl hon ar gyfer dyddiadau llawysgrifau ac ysgrifwyr.

<sup>4</sup> William Salesbury, *A dictionary in Englyshe and Welshe moche necessary to all suche Welshemen as wil spedly learne the englyshe tōgue* (London, [1547]). Arno, gw. Menna Morgan, 'Hanes Geiriaduraeth yng Nghymru o 1547 hyd 1914' (Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2002), tt. 1–18.

<sup>5</sup> John Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries* (Oxford: Oxford University Press, 2022), t. 115.

<sup>6</sup> Gruffydd Aled Williams, 'William Salesbury a "Blaendorri'r Iâ"', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl IV: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gomer, 1989), 29–62 (45). Trafodir cymhellion Salesbury ymhellach yn J. E. Caerwyn Williams, *Geiriadurwyr y Gymraeg yng Nghyfnod y Dadeni* (Caerdydd, 1983), tt. 20–1; gw. ymhellach Morgan, 'Hanes Geiriaduraeth', tt. 5–9.

<sup>7</sup> Defnyddir y geiriau 'gair' neu 'ddangosair' yma ar gyfer y gair a drafodir mewn cofnod yn y geiriadur; yn ogystal â'r dangosair, gallai'r cofnod gynnwys diffiniad (sef cyfystyron) ac weithiau ddyfyniad yn enghreifftio'i ddefnydd mewn cyd-destun.

<sup>8</sup> Gw. t. 000.

<sup>9</sup> Wrth drafod cyfoeswyr na lwyddasant i ddwyn y maen geiriadurol i'r wal, meddai Thomas Wiliems yn ei Ragymadrodd i'r geiriadur, Peniarth 228i, 7<sup>r</sup>, *Mi a vum yn dysgwyllo dros yr amser wrth M. Doct. Dauis prifphysycwr, a vedrasai wneuthyr y gwaith yn dha dhigon ag wrth Sal. par. pow. ag ereilh, adhowsent er ys blynydhoedh ei wneuthur, ag er hyny, ny dharuu vdhunt veisio, gwneuthur brisc na thorri'r ia'n y lhudhedigboen hon yma*. Mae'n debygol mai cyfeirio a wna at Siôn Dafydd Rhys, Henry Salesbury, Henri Perri a David Powel; cf. Williams, 'Thomas Wiliems', 305.

<sup>10</sup> Yn yr erthygl hon dilynir yr arfer o gyfeirio at awdur y geiriadur *Dictionarium Linguae Latinae* fel Thomas Thomas a'r geiriadur ei hun fel Thomasius, gan nodi blwyddyn argraffiad lle mae'n berthnasol. Gwelir isod mai'r argraffiad cyntaf, Thomasius (1587), a ddefnyddiodd Thomas Wiliems ar gyfer corff ei eiriadur.

<sup>11</sup> Ceir yr Atodiad yn Peniarth 228iii, 173<sup>v</sup>–191<sup>v</sup>.

<sup>12</sup> Gw. yn arbennig E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 6:4 (1950), 309–28 (316–25).

<sup>13</sup> Ymhellach ar eiriadur *duplex* (Cymraeg–Lladin a Lladin–Cymraeg) Dr John Davies, gw. Caryl Davies, 'The *Dictionarium Duplex* (1632)', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of*

*Mallwyd: Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), tt. 126–70.

<sup>14</sup> Jones, ‘Brogintyn’, 320.

<sup>15</sup> Ar gael: <https://leme.library.utoronto.ca/lexicons/179/details#fulltext>, cyrchwyd 14 Chwefror 2024. Yn ogystal â gwallau yn y trawsysgrifiad electronig, ceir hefyd sawl enghraifft o wallau cysodi, megis trawsosod llythrennau.

<sup>16</sup> Peniarth 228, i.9<sup>v</sup>.

<sup>17</sup> Am fywgraffiad Thomas Wiliems, gw. uchod n. 3. Ceir sylwadau gwerthfawr hefyd gan Jones, ‘Brogintyn’, 316–25; a chan Davies, ‘*Dictionarium Duplex* (1632)’, tt. 126–70.

<sup>18</sup> Am y posiblwrwydd iddo dderbyn peth addysg ym Mangor yn y 1560au, gw. Gruffudd Antur Edwards, ‘Beirdd a Gwŷr Llên: Rhai Rhwydweithiau Llawysgrifol yng Nghymru, c.1450–c.1800’ (Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2022), tt. 1349.

<sup>19</sup> Ychwanegodd Thomas Wiliems y geiriau canlynol (nad ydynt yn Thomasius) at ei gofnod ar *Calena*: Peniarth 228i, 93<sup>v</sup> *Rydychen dinasdref y dhysciediaeth, lhe bum iñe gynt yn wr ieuanc yn angwanegu vy nysc a'm gwybotaeth.*

<sup>20</sup> Gw. S. Mendyk, ‘Carew, Richard (1555–1620)’, *Oxford Dictionary of National Biography Online*, 23 Medi 2004 [Ar-lein]. Ar gael: <https://doi.org/10.1093/ref:odnb/4635>, cyrchwyd 14 Chwefror 2024. Medd Mendyk am Carew, ‘By about 1566 he had gone up to Christ Church, Oxford, where he became a friend of William Camden and Philip Sidney, but does not seem to have taken a degree, afterwards proceeding to the Middle Temple, where he spent another three years studying law.’ Tybed a fu Camden a Sidney yn gyfeillion i Thomas Wiliems yntau?

<sup>21</sup> Yn ei gyfrol *The Suruey of Cornvall* (London, 1602), t. 55, meddai Carew: ‘A friend of mine, one master *Thomas Williams*, discoursed once with mee, that the *Cornish* tongue was deriued from, or as least had some acquayntance with the Greeke; and besides diuers reasons which hee produced to proue the same, hee vouched many wordes of one sence in both.’ Mae’n amlwg fod Thomas Wiliems wedi cael copi o’r gyfrol, ac yn ei lyfr nodiadau, Peniarth 188, 234, mae’n atgynhyrchu tabl yn cyfosod geiriau Groeg, Cernyweg a Saesneg a gododd o lyfr ‘Richard Carrw de Antony’.

<sup>22</sup> Cf. Williams, ‘Thomas Wiliems’, 286.

<sup>23</sup> Am y ‘torri cyfeillgarwch’ hwnnw a ddigwyddodd yn fuan wedi 1574, gw. Thomas Parry, ‘Tri Chyfeiriad at William Salesbury’, *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 9:2 (1938), 108–12.

<sup>24</sup> Ymhellach ar y ddwy eirfa yn llaw Wiliam Llŷn, Peniarth 230 a Caerdydd 3.12, gw. Roy Stephens, ‘Geirfâu Wiliam Llŷn’, *Llên Cymru*, 15 (1984–8), 308–19 (312), lle daw i’r casgliad nad yw’r naill yn gopi o’r llall, ‘ond yn hytrach fod yr un casgliad o eiriau a dyfyniadau’n gynsail gyffredin iddynt’. Gw. hefyd Huws, *Repertory*, cyf. I, t. 427 (Peniarth 230), t. 560 (Cardiff 3.12); a Williams, *Geiriadurwyr y Gymraeg*, tt. 18–19. Mae’r nodyn canlynol ar yr enw *Gerddinen* (bellach *Gorddinan* neu fwlch y Crimea) yn nodwediadol o ambell nodyn ar dafodiaith a ychwanegodd William Salesbury at ei gopi ef ac a gynhwysodd Thomas Wiliems yn Caerdydd 4.330, 112: *Kerddinen, criavolbren gair arveredic heddyw yn deeu Cemru, y mae man ym mynydd Arvon yn nol Wyddelan yn Gwynedd, a elwir bwlch y gerddinen, wrth yr hynn beth y gellir deall vod ryw amser yr yn Camberaec dros Wynedd a deeuparth.*

<sup>25</sup> Caerdydd 4.330, 234.

<sup>26</sup> Peniarth 228i, 7<sup>r</sup>.

<sup>27</sup> Huws, *Repertory*, cyf. II, t. 199, ‘By 1590 his habitual hand had become distinctively small

and crabbed (probably due to his failing eyesight); his ink was by then generally black and his orthography modified (he had adopted the digraphs *dh* for *dd*, *lh* for *ll* and *ph* for *ff*).<sup>29</sup>

<sup>28</sup> J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), cyf. I, t. 1015.

<sup>29</sup> Peniarth 188, 123. Cyfeiria Thomas Wiliems at yr *hen lyver* hwn yn ei eiriadur fel *Li. lh. daf / Li. lhan daf* ('Llyfr Llandaf'), gw., er enghraifft, dan **Hebes a Betonica**. Credir mai perchenog yr *hen lyver* oedd Syr Walter Cope (m. 1614): gw. Huws, *Repertory*, cyf. I, 414. Daw'r geiriau a ddyfynna Thomas Wiliems ohono o'r *Vocabularium Cornicum*, a thybid mai Hen Gymraeg oeddynt cyn i William Jones, cynorthwyd Edward Lhwyd, sylweddoli yn 1701 mai geiriau Hen Gernywieg oeddynt; gw. ymhellach Ann Parry Owen, *Geirfâu'r Fflyd, 1632–1633* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru: 2023), t. 27.

<sup>30</sup> Peniarth 188, 277 a 291.

<sup>31</sup> Gw. Williams, *Thomas Wiliems*, 310–11. Ceir dystiolaeth o ddiddordebau ieithyddol John Edwards (gwir ymgeledhwr yr iaith Gymraec, Peniarth 228i, 8<sup>r</sup>) mewn casgliad o bapurau cydrwym yn LlGC 3561B ac LlGC 3562D, sy'n cynnwys pob math o nodiadau ar eirfâu, rhagddodiaid, oloddodiaid, treigladau a chywirdeb Cymraeg. Ceir dystiolaeth bellach o'r berthynas rhyngddynt: yn LlGC 3064B, er enghraifft, ceir copi taclus yn llaw John Edwards o gasgliad o ddiarhebion a luniodd Thomas Wiliems (nid yw copi TW wedi goroesi); a cheir llythyr gan Thomas Wiliems at John Edwards yn ymgynghori ag ef ynglŷn â'i gyfieithiad o'r 'Sagrafen Penyd', gw. Geraint Bowen, ' "Lhyuran or Sacrauen o Benyt" Thomas Wiliems o Drefriw', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 13:3 (1964), 300–5 (300).

<sup>32</sup> Jones, 'Brogynwyn', 323, lle disgrifir gwaith taclus John Edwards a'r modd y defnyddiodd wahanol liwiau inc fel cyfarwyddyd i'r cysodydd ddefnyddio gwahanol ffontiau ar gyfer gwahanol rannau'r erthyglau geiriadurol (dangosair, diffiniad, dyfyniad ac ati).

<sup>33</sup> Cadwyd trawsysgrifiad John Edwards a'i gynorthwyd yn Brogyntyn I.9 ac I.10; arnynt, ac am hanes bellach y geiriadur ar ôl gadael meddiant Thomas Wiliems, a rhan Syr John Wyn yn anfon gwaith at John Davies, Mallwyd, yn dilyn marwolaeth John Edwards ei hun yn 1625/6, gw. Jones, 'Brogynwyn', 309–28 (316–25), Williams, 'Thomas Wiliems', 310–16.

<sup>34</sup> Gw. Morgan, 'Hanes Geiriaduriaeth', tt. 2–4. Nid arfer yn perthyn i gyfnod cynnar geiriadura yn unig yw hwn: mae geiriadur Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (goln), *Geiriadur yr Academi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), yn yr un modd wedi ei seilio ar ran Saesneg–Ffrangeg geiriadur Harraps, *Shorter English and French Dictionary* (1975), fel yr esbonnir yno, t. ix.

<sup>35</sup> Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, t. 260, 'when one book followed much of the text of another verbatim, copying out all the printed text of the earlier book by hand would be very laborious, it would introduce error, and it would make unnecessary trouble for the printers of the new book, since it is easier to set type from printed copy than from manuscript'.

<sup>36</sup> Guillaume Morel, *Verborum Latinorum cum Graecis Gallicisque coniunctorum, commentarii* (Paris, 1558); Guillaume Morel, *Verborum Latinorum cum Graecis Anglicisque coniunctorum, locupletisii commentarii* (London, 1583); Thomas Cooper, *Thesaurus linguae Romanae et Britannicae* (London, 1565). Am drafodaeth ar ffynonellau Thomas, gw. DeWitt Talmage Starnes, *Renaissance Dictionaries: English–Latin and Latin–English* (Austin: University of Texas Press, 1954), tt. 116–18; Allan Stevenson, 'Thomas Thomas Makes a Dictionary', *The Library*, 13 (1958), 234–46; Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, tt. 259–62.

<sup>37</sup> Ar eiriadur Thomas Elyot, gw. Starnes, *Renaissance Dictionaries*, tt. 45–67; ac am ei ddibyniaeth ar eiriadur Ambrosius Calepinus, gw. tt. 51–5, lle trafodir poblogrwydd y geiriadur hwnnw yn 16g. a'r 17g., pan ychwanegwyd ato nifer fawr o ieithoedd, yn cynnwys Hebraeg, Groeg, Ffrangeg ac Eidaleg. Gw. hefyd Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, tt. 80–2, 111–13.

<sup>38</sup> Peniarth 228i, 5<sup>r</sup>.

<sup>39</sup> Jones, ‘Brogynwyn’, 316; felly hefyd Williams, *Thomas Wiliems*, 309, n. 2, ‘Rhaid pwysleisio nad yw Thomas Wiliems yn cymryd arno mai o Eiriadur Thomas Thomas yr oedd yn gweithio.’

<sup>40</sup> Jones, ‘Brogynwyn’, 321–3.

<sup>41</sup> Peniarth 228iii, 173<sup>v</sup>.

<sup>42</sup> Diddorol sylwi bod Francis Holyoake (1567–1653) yntau'n honni mai gwaith Calepinus oedd un o brif ffynonellau Thomasius (1587), yn John Rider, *Dictionarium etymologicum*, gol. Francis Holyoake (London, 1633), ¶5v: ‘Thomasius, ex Calepino et Coopero primum compilavit’; dyfynnir o Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, t. 261, lle nodir ‘he was mistaken’, gan mai anuniongyrchol, fel yn achos geiriadur Thomas Wiliems, oedd y berthynas.

<sup>43</sup> Starnes, *Renaissance Dictionaries*, t. 52.

<sup>44</sup> Peniarth 228i, 5<sup>r</sup>.

<sup>45</sup> Jones, ‘Brogynwyn’, 320.

<sup>46</sup> John Higgins (gol.), *Nomenclator; or remembrancer of Adrianus Iunius physician ... conteining proper names and apt termes for all thinges vnder their conuenient titles* (London, 1585). Ar y Nomenclator, gw. yn arbennig Werner Hüllen, *English Dictionaries, 800–1700: The Topical Tradition* (Oxford: Oxford University Press, 1999), tt. 353–60.

<sup>47</sup> Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, t. 262, ac ymhellach tt. 261–3 lle trafodir ffynonellau eraill Thomasius (1587).

<sup>48</sup> Ymhellach arno, gw. David McKitterick, ‘Thomas, Thomas (1553–1588)’, *Oxford Dictionary of National Biography Online*, 3 Ionawr 2008 [Ar-lein]. Ar gael: <https://doi.org/10.1093/ref:odnb/27240>, cyrchwyd 14 Chwefror 2024.

<sup>49</sup> Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, t. 259.

<sup>50</sup> Starnes, *Renaissance Dictionaries*, t. 115.

<sup>51</sup> Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, tt. 270–7.

<sup>52</sup> Ibid., t. 259.

<sup>53</sup> Peniarth 228i, 5<sup>r</sup>.

<sup>54</sup> Cf. y cofnod ar **Balaena**, gair sy'n digwydd yn ‘Plin.’ yn yr ystyr *Rhyw vorbysc, rhywogaeth voruarch, moruil*. Ceir trafodaeth ddifyr Plinius yr Hynaf ar forfilod yn nawfed lyfr ei *Naturalis Historia*, 79 O.C.

<sup>55</sup> Mae arolwg sydyn o'r dyfyniadau yn y sampl a drawsysgrifiwyd yn awgrymu bod John Davies wedi defnyddio nifer fawr ohonynt yn rhan gyntaf ei *Dictionarium*.

<sup>56</sup> Peniarth 228i, 5<sup>r</sup>.

<sup>57</sup> Peniarth 228i, 7<sup>r</sup>.

<sup>58</sup> A: Peniarth 228i, 12<sup>r</sup>–77<sup>v</sup>; B: 77<sup>v</sup>–89<sup>v</sup>; C: 90<sup>r</sup>–186<sup>v</sup>; D: 186<sup>v</sup>–226<sup>v</sup>; E: Peniarth 228ii, 2<sup>r</sup>–41<sup>r</sup>; F: 41<sup>r</sup>–66<sup>r</sup>; G: 66<sup>r</sup>–77<sup>v</sup>; H: 77<sup>v</sup>–92<sup>v</sup>; I: 92<sup>v</sup>–147<sup>v</sup>; K: 147<sup>v</sup>; L: 147<sup>v</sup>–176<sup>r</sup>; M: 176<sup>r</sup>–212<sup>r</sup>; N: 212<sup>r</sup>–226<sup>v</sup>; O 226<sup>v</sup>–254<sup>r</sup>; P: 254<sup>r</sup>–351<sup>v</sup>; Q: Peniarth 228iii, 2<sup>r</sup>–8<sup>r</sup>; R: 8<sup>r</sup>–37<sup>v</sup>; S: 37<sup>v</sup>–106<sup>v</sup>; T: 106<sup>v</sup>–139<sup>v</sup> (ni cheir testun ar 138); V: 139<sup>v</sup>–170<sup>v</sup>; X: 170<sup>v</sup>–171<sup>v</sup>; Z: 171<sup>v</sup>–172<sup>v</sup>.

<sup>59</sup> Gw. Considine, *Sixteenth-Century English Dictionaries*, t. 259, n. 111, lle dyfynnir ffigurau gan Ian Lancashire.

<sup>60</sup> Ceir hefyd atodiadau byr yn cynnwys *Errata Thomasi* ('gwallau yn Thomasius') yn Peniarth 228ii, 352<sup>r</sup> a Peniarth 228iii, 193<sup>r-v</sup>, 194<sup>r</sup>, 196<sup>v</sup>. Ni wyddys eto beth oedd ffynhonnell Thomas Wiliems ar gyfer y rhain, ond gan fod cryn sylw yn cael ei roi ynddynt i enwau llysiau, gall mai ef sy'n gyfrifol am rai ohonynt.

<sup>61</sup> Pwysleisiodd John Davies pa mor anodd i'w ddarllen oedd y geiriadur wrth geisio esgusodi ei ddiffyg cynnydd yn ei drawsysgrifio i Syr John Wynn, gw. Jones, 'Brogintyn', 318; cwynodd John Davies am y geiriadur, er enghraifft yn 1624, 'it is so voluminous & so hard to reade'.

<sup>62</sup> Er enghraifft yn Peniarth 228iii mae wedi cywiro trefn y geiriau canlynol yn Thomasius (1587) *Tamen, Tamacetum, Tametsi, Taminia, Tamus, Tandem* > *Tamen, Tametsi, Taminia, Tamus, Tanacetum, Tandem*, gan hefyd gywiro'r dangosair gwallus *Tamacetum* yn *Tanacetum*.

<sup>63</sup> Er enghraifft, [i77v12] = Peniarth 228i, f. 77<sup>v</sup>, y deuddegfed dangosair; [ii78r5] = Peniarth 228ii, f. 78<sup>r</sup>, y pumed dangosair; [iii107v6] = Peniarth 228iii, f. 107<sup>v</sup>, y chweched dangosair. Ceir delweddau digidol o eiriadur Thomas Wiliems yng Nghasgliad Peniarth ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Pen 228i [Ar-lein]. Ar gael:

<http://hdl.handle.net/10107/4685376>, Pen 228ii, <http://hdl.handle.net/10107/4684664>, Pen 228iii, <http://hdl.handle.net/10107/4685827>; fe'u cyrchwyd oll 14 Chwefror 2024.

<sup>64</sup> Atgynhyrcha Thomas Wiliems fyfoddau Thomasius ar gyfer y rhannau Lladin, gan gynnwys awduron clasurol ac ôl-glasurol; ceir y canlynol yn y detholiad hwn: *f./m./n.* benywaidd / gwrywaidd / diryw; *g.* cenedl; *com. g.* enw benywaidd neu wrywaidd; *depon.* berf ac iddi ffurf oddefol ond ystyr weithredol; *part.* rhangymeriad; *p./s./t. b.* am *prima* / *secunda* / *tertia brevis* (cyfarwyddyd i roi *breve* ar y yn y sillaf berthnasol); *Cels[us]*, *Colum[ella]*; *Diosc[orides]*, *ENN[ius]*, *Fest[us]*, *Horat[ius Flaccus]*, *Isid[orus]*, *Iun[ius]*, *Lucret[ius]*, *Mart[ial]*, *Ovid[ius]*, *Plaut[us]*, *Plin[ius]*, *Ruell[ius]*, *Spart[ianus]*, *Varr[o]*, *Virg[ilius Maro]*.

<sup>65</sup> O'i gyfieithu'n fras: 'Cafwyd un o'i fath ar lan y môr ger tref Biwmares, yn y flwyddyn 1596. Hyd 63 troedfedd; uchder a lled yn cyfateb i hynny. Cafwyd un hefyd ger tref Pwlheli yn sir Gaernarfon yn 1601, tua'r un maint, ychydig cyn marwolaeth Elizabeth, brenhines Lloegr.'

<sup>66</sup> Gw. n. 36.